

**Adran Addysg**

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru

Stryd Fawr, Caerllion NP18 1AE

Ffôn: (029) 2057 3546

addysg.rhufeinig@amgueddfacymru.ac.uk

**Canllawiau Iechyd a Diogelwch ar gyfer Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru a Baddonau, Amffitheatr a Barics Rhufeinig Cadw.**

**Nid yw hwn yn asesiad risg.** Diben yr wybodaeth hon yw helpu ysgolion i gynllunio eu taith i Gaerllion. Mae ysgolion yn gyfrifol am gynnal asesiadau risg eu hunain. Nid ydym yn gallu gwirio na llofnodi unrhyw adran o ffurflenni asesiadau risg ysgolion gan nad yw hyn yn gyfrifoldeb i ni. Adnodd i'ch helpu i baratoi yw'r wybodaeth ddiogelwch hon. Rydym yn cynghori pob arweinydd grŵp a goruchwylydd i ddod â chopïau o'r asesiad risg ar yr ymweliad. Mae ymweliadau rhagflas yn rhad ac am ddim ond mae'n rhaid archebu os ydych am gyfarfod ag aelod o staff ar y diwrnod.

**Bydd ymweliad ag Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn cynnwys ymweliad i oriel yr Amgueddfa, ystafell farics y milwyr, defnydd o'r gofod cinio a sesiwn wedi ei hwyluso tu allan yng ngardd yr Amgueddfa. Nid yw safleoedd Cadw, fel yr Amffitheatr a'r Baddonau, yn derbyn grwpiau ysgol ar hyn o bryd.**

**Mae rhagofalon wedi eu rhoi ar waith ym mhob un o safleoedd Amgueddfa Cymru er mwyn lleihau lledaeniad COVID-19:**

- Mae gennym nifer cyfyngedig o ymwelwyr ar y safle ar unrhyw adeg.
- Rydym wedi gosod offer diogelu personol, adnoddau hylendid ychwanegol a chynyddu'r nifer o weithiau mae toiledau ac adnoddau yn cael eu glanhau bob dydd.
- Mae'n rhaid i bob ymwelydd dros 11 oed wisgo gorchudd wyneb ym mhob ardal dan do.
- Mae canllawiau diogelwch ymwelwyr mewn grym ar y safle - dilynwch nhw.
- Mae mesurau pellter cymdeithasol mewn grym ar y safle.
- Mae gorsafoddd diheintio dwylo ar gael i ymwelwyr a staff.
- Bydd rhai orielau/ardaloedd ar gau dros dro lle nad yw ymbellhau cymdeithasol yn bosibl.
- Rydym wedi gosod llwybrau newydd, fel system un-ffordd. Chwiliwch am a dilynwch unrhyw arwyddion newydd o gwmpas yr Amgueddfa neu'r safle.
- Rydym wedi cynnal asesiadau risg unigol ar gyfer pob gweithdy i ysgolion a gofodau dysgu.
- Mae gennym nifer cyfyngedig o weithdai ar gael lle nad oes modd cynnal ymbellhau cymdeithasol.

Yn ystod y cyfnod cyntaf o alluogi ysgolion i ddychwelyd i'n hamgueddfeydd byddwn yn cyfyngu'r niferoedd dyddiol, gan alluogi i un dosbarth ymweld bob dydd. Rhaid archebu pob ymweliad o leiaf 2 wythnos ymlaen llaw.

Byddwn yn gofyn i bob dosbarth rannu'n grwpiau llai wrth gerdded o amgylch yr Amgueddfa.

Bydd angen i bob ysgol gadw at y gweithdrefnau sydd wedi eu gosod ar waith ym mhob Amgueddfa h.y. cadw at systemau unffordd.

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><b>Lefelau Goruchwylio</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n rhaid cael o leiaf <b>3</b> a dim mwy na <b>5</b> oedolyn ar gyfer grwpiau sy'n mynd i'r Amgueddfa.</li> <li>• Ni fydd unrhyw ymwelwyr eraill yn yr Amgueddfa yn ystod ymweliad ysgol.</li> </ul>                                       | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai'r oedolion cyfrifol (18+ oed) a fydd yn mynd gyda'r ysgol oruchwylio'r disgyblion yn eu gofal bob amser.</li> <li>• Os nad ydych yn gallu bodloni'r gymhareb oruchwylio ofynnol, mae'r Amgueddfa a Cadw yn cadw'r hawl i addasu eich sesiwn yn unol â hynny.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| <p><b>Gardd yr Amgueddfa – risg isel</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddio replicas o wrthrychau gan gynnwys cleddyfau meddal a tharianau pren.</li> <li>• Risg o faglu a syrthio.</li> <li>• Risg o frifo rhywun arall gyda tharian replica</li> <li>• Tywydd garw ac ychydig o gysgod.</li> </ul> | <p><b>Mesurau Rheoli: s</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd hwylusydd yr Amgueddfa yn arwain y sesiwn yn yr Ardd Rufeinig ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir ar ddefnyddio'r arfau a'r arfwisg.</li> <li>• Rhaid i staff a disgyblion gadw dwy fedr i ffwrdd o staff yr Amgueddfa.</li> <li>• leiaf 1 oedolyn o'r ysgol i roi cyfarwyddiadau a goruchwylio bob amser.</li> <li>• Dylai'r ysgolion gynghori disgyblion i wisgo dillad addas i fod tu allan.</li> </ul>                                                                                                                         |
| <p><b>Ystafell y Barics – risg isel</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n rhaid i'r athro neu'r arweinydd grŵp arwain y rhan hwn o'r sesiwn. Byddwch yn cael cyfarwyddiadau wrth archebu.</li> <li>• Mae canllaw sain ar gael i'ch cynorthwyo.</li> </ul>                                               | <p><b>Mesurau Rheoli:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• O leiaf 2 oedolyn i roi cyfarwyddiadau a goruchwylio bob amser.</li> <li>• Dim staff amgueddfa yn bresennol.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| <p><b>Oriel yr Amgueddfa – risg isel</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Grisiau – corneli miniog ar gypyrddau arddangos</li> <li>• Gall lloriau fod yn llithrig pan yn wlyb.</li> <li>• Mae arwyddion eraill, systemau unffordd a sgriniau wedi'u gosod.</li> </ul>                                        | <p><b>Mesurau Rheoli:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wrth gyrraedd, rydym yn gofyn i arweinydd y grŵp drafod â staff yr Amgueddfa, gan roi manylion am nifer y plant a'r oedolion yn y Grŵp.</li> <li>• Yr ysgol i roi cyfarwyddiadau a goruchwylio bob amser. Staff yr Amgueddfa yn bresennol. Mae angen bod yn ofalus iawn pan fo'r tywydd yn wlyb.</li> <li>• Bydd y grŵp dan eich goruchwyliaeth chi tra byddant yn yr oriel.</li> <li>• Rhaid i staff a disgyblion gadw dwy fedr i ffwrdd o staff yr Amgueddfa bob amser.</li> <li>• Mae un toiled yn Oriel yr Amgueddfa.</li> </ul> |
| <p><b>Canolfan Capricorn a gofod cinio</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gall lloriau fod yn llithrig pan yn wlyb.</li> <li>• Bagiau a dillad wedi'u gadael ar y llawr.</li> </ul>                                                                                                                        | <p><b>Mesurau Rheoli:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid i arweinwyr grŵp ac oedolion cyfrifol oruchwylio'r ysgol bob amser.</li> <li>• Grwpiau i ddiheintio dwylo cyn bwyta.</li> <li>• Bagiau a dillad i'w cadw ar feinciau neu yn y bocs a ddarperir.</li> <li>• Mae angen bod yn ofalus iawn pan fo'r tywydd yn wlyb.</li> <li>• Bydd grwpiau yn mynd â'u sbwriel gyda nhw i'w gwaredu i ffwrdd o'r safle.</li> </ul>                                                                                                                                                               |

### **Baddonau'r Gaer – risg isel**

- Mae bylchau yn estyll y llawr a all fod yn beryglus i bobl sy'n gwisgo sodlau cul/uchel.
- Nenfwd isel yn yr allanfa dân ym mhen draw neuadd y baddon oer.
- Mân anafiadau wrth drin gwrthrychau'r casgliadau yn amhriodol.
- Wrth gyrraedd, rydym yn gofyn i arweinydd y grŵp drafod â staff y Baddonau, gan roi manylion am nifer y plant a'r oedolion yn y grŵp.
- Dylai'r grŵp fod dan oruchwyliaeth staff yr ysgol bob amser.
- Os fydd grwpiau'n defnyddio'r siop yn ystod eu sesiwn yn y Baddonau, dylid gwneud hynny mewn grwpiau o 6 neu lai rhag i ormod o bobl fod yn y siop ar yr un pryd.

Sylwer: nid oes toiledau cyhoeddus yn yr ardal hon.

### **Mesurau rheoli:**

- Dim sodlau cul/uchel i'w gwisgo yn y baddonau.
- Staff yr ysgol a'r Baddonau i roi cyfarwyddiadau a goruchwyllo mewn unrhyw achos o wacáu mewn argyfwng.
- Dylai staff ysgol oruchwyllo disgyblion yn ofalus wrth iddynt drin y casgliadau.

### **Amffitheatr a Barics – risg uchel.**

- Dylai grwpiau aros am aelod o staff Cadw cyn mynd mewn i'r amffitheatr, er mwyn derbyn cyflwyniad iechyd a diogelwch.
- Bydd arweinydd eich grŵp yn arwain y sesiwn hon a gall yr ardal fod yn beryglus iawn.
- Er mwyn atal damweiniau – rhaid i staff ysgol oruchwyllo'r disgyblion yn ofalus bob amser.
- Peidiwch â gadael i'ch grŵp ddringo ar yr henebion.
- Dylid caniatáu tua 8 munud i gerdded i'ch sesiwn nesaf a dylid cymryd gofal wrth groesi'r ffordd. Mae toiledau yn y pafiliwn, ger yr Amffitheatr.

**Amffitheatr:** o fwrw golwg sydyn gall yr Amffitheatr edrych yn ddiogel, ond o'i harchwilio'n fwy manwl byddwch yn gweld y risgiau canlynol:

- Mannau uchel cudd heb eu diogelu – mae'r uchaf tua 5 metr o uchder.
- Arwynebau llithrig anwastad.
- Llethrau glaswellt serth.
- Cerrig a chreigiau rhydd.

#### **Ardal y Barics:**

- Arwynebau llithrig anwastad.
- Waliau isel.

### **Mesurau Rheoli:**

#### **Amffitheatr**

- dylid arwain grwpiau i lawr i brif ardal yr arena a dylent aros yno, yn hytrach nag archwilio'r ardaloedd ar lefelau uwch.
- Ni ddylid caniatáu i blant redeg o gwmpas y tu allan i'r amffitheatr – gan ei bod yn hawdd rhedeg oddi ar y glaswellt gwastad tuag at fannau uchel cudd.
- Ni ddylai plant ddringo unrhyw risiau yn yr arena, gan eu bod yn arwain at fannau uchel cudd.
- Dylai grwpiau sy'n dewis eistedd mewn manau uchel sicrhau bod plant yn cael eu goruchwyllo.
- Mae angen bod yn arbennig o ofalus os ydych yn ymweld pan fydd y tywydd yn wael.
- Bydd gofyn i grwpiau adael os nad ydynt yn ymddwyn yn briodol.

#### **Barics**

- dylai grwpiau ofalu rhag baglu dros waliau isel neu arwynebau llithrig.

## DATGANIAD DIOGELWCH

Mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn derbyn yn llawn ei chyfrifoldebau o dan Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch yn bodoli ynghyd ag asesiadau risg ysgrifenedig a wnaed mewn perthynas â'n dyletswyddau cyfreithiol tuag at bobl nad ydynt yn aelodau o staff (h.y. ymwelwyr) sy'n dod i'r safle ac yn defnyddio ein cyfleusterau.

Gallwn eich sicrhau bod iechyd a diogelwch ymwelwyr ar y safle o'r pwys mwyaf i ni. Rydym wedi cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol ar faterion iechyd a diogelwch, ac rydym am sicrhau y byddwch yn mwynhau ymweliad hwyliog ac addysgiadol.

Mae gennym bolisi recriwtio, hyfforddi ac asesu staff sy'n sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am ddiogelwch a lles ymwelwyr/cyfranwyr yn gymwys i wneud y gwaith.

Gofynnir yn garedig i athrawon a staff ysgol eraill weithio gydag Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru i oruchwylio'r plant yn eu gofal ar y safle.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw disgyblion trwy gydol yr ymweliad, gan gynnwys amser cinio.

Rydym yn awgrymu'n gryf bod arweinwyr grŵp yn ymweld â'r safle ymlaen llaw er mwyn asesu unrhyw risgiau posibl.

## CEFNDIR

|         |                                                                                                                                                        |
|---------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Profiad | Mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru wedi bod ar agor i'r cyhoedd ers dros 150 o flynyddoedd. Mae'r Adran Addysg wedi bod yn croesawu ymwelwyr ers 1996. |
|---------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

## GWYBODAETH GYFFREDINOL

|                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|-----------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Anifeiliaid /<br>Anifeiliaid yn Baeddu mewn<br>Mannau Cyhoeddus | Mae croeso i chi ddod â chŵn i'r olion awyr agored (Amffitheatr a Barics) ond rhaid iddynt fod ar dennyn – fodd bynnag, nid yw'r holl drigolion lleol yn cadw at y rheol hon.<br><br>Rydym yn croesawu cŵn tywys gydag ymwelwyr â nam ar eu golwg neu ar eu clyw. |
|-----------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

|                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|---------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Hanes Troseddol ac<br>Amddiffyn Plant | Rydym wedi cynnal archwiliad y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol (NIS) ar bob aelod o staff. Mae'r archwiliadau cydnabyddedig hyn yn arbennig ar gyfer y sector amgueddfeydd ac yn gyfystyr ag archwiliad sylfaenol y DBS.<br><br>Mae staff yr Amgueddfa sy'n dod i gysylltiad rheolaidd a/neu heb oruchwyliaeth â phlant yn derbyn archwiliadau trylwyr y DBS. |
|---------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

|                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|---------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Clirio'r Safle mewn<br>Argyfwng | Mae trefniadau ar waith i glirio'r safle mewn argyfwng. Mae holl staff yr Amgueddfa'n gyfarwydd â'r trefniadau ac yn eu hymarfer yn gyson.<br><br>Mae Cyfarwyddiadau Diogelwch Tân wedi'u lleoli: <ul style="list-style-type: none"><li>• tu ôl i'r brif ddesg yn oriel yr Amgueddfa</li><li>• yn y fynedfa i Ganolfan Capricorn</li><li>• tu allan i'r Grammaticus (ystafell ddosbarth).</li></ul><br>Mewn argyfwng, bydd larwm yn canu a dylech adael trwy'r allanfa ddiogel agosaf, a dilyn cyfarwyddiadau staff yr Amgueddfa. |
|---------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

|                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Cyfleusterau ar gyfer Ymwelwyr sydd ag Anghenion Arbennig</p> | <p>Mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn ceisio ei gorau i ddarparu ar gyfer ymwelwyr ag anghenion arbennig. Cysylltwch â ni <u><a href="#">ymlaen llaw</a></u> i drafod pa drefniadau y gallwn ni eu gwneud.</p> <p>Rhaid i ysgolion ac arweinwyr grwpiau sicrhau eu bod nhw'n gwneud trefniadau addas i oruchwylio a chynorthwyo disgyblion ag anghenion arbennig.</p> <p>Mae Canllawiau Mynediad ar gael ar ein gwefan <a href="https://amgueddfa.cymru/rufeinig/ymweld/mynediad/">https://amgueddfa.cymru/rufeinig/ymweld/mynediad/</a> neu drwy ffonio 02920 573544.</p> <p><u>Nam Corfforol</u></p> <p>Mae modd mynd â chadair olwyn i oriel yr Amgueddfa a Ystafell y Barics.</p> <p><u>Nam ar y Golwg</u></p> <p>Mae lefel y golau o fewn oriel yr Amgueddfa yn dda iawn. Mae Canolfan Capricorn yn cynnwys cyflwyniadau sain. Mae casgliad trin a thrafod ar gael yn yr Amgueddfa.</p> <p><u>Nam ar y Clyw</u></p> <p>Mae dolen sain wrth brif ddesg oriel yr Amgueddfa.</p> |
| <p>Cymorth Cyntaf</p>                                            | <p>Os oes angen cymorth cyntaf arnoch chi, cysylltwch ag aelod o staff yr Amgueddfa fydd yn galw rhywun sydd wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| <p>Yswiriant / Atebolrwydd Cyhoeddus</p>                         | <p>Fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, nid oes gan yr Amgueddfa yswiriant masnachol, ond caiff unrhyw atebolrwydd a brofir ei dalu o goffrau'r amgueddfa neu, os yw'n annigonol, trwy gais i'r Cynulliad.</p> <p>Mae gan yr Amgueddfa yswiriant masnachol ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus, a gellir ei weld ar waelod y ddogfen hon.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| <p>Plant Coll</p>                                                | <p>Sylwer: bydd yr ymweliad hwn yn digwydd mewn mwy nag un safle, felly rhaid cymryd gofal i sicrhau bod y grŵp yn aros gyda'i gilydd. Gall ffyrdd Caerllion fod yn brysur felly dylid bod yn ofalus wrth symud rhwng y safleoedd.</p> <p>Dywedwch wrth blant sy'n cael eu gwahanu oddi wrth eu grŵp i roi gwybod i aelod o staff yr Amgueddfa os ydynt ar goll.</p> <p>Os bydd arweinydd grŵp yn sylwi bod rhywun ar goll, dylent ddweud wrth un o'r cynorthwywyr neu staff yr Amgueddfa a fydd yn cymryd y camau priodol.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| <p>Anghenion Meddygol</p>                                        | <p>Dylai arweinwyr grwpiau neu ysgolion roi gwybod i staff Adran Addysg yr Amgueddfa os oes gan unrhyw ddisgybl anghenion penodedig neu anhwylder meddygol difrifol. Bydd yn rhaid i ni ystyried hyn a thrafod trefniadau brys gyda chi.</p> <p>Os yw'n ddiogel, byddwn yn ceisio cynnwys disgyblion ag anhwylderau penodedig neu ddifrifol yn y gweithgareddau a gynigir.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| <p>Ffwng/Planhigion Gwennyng</p>                                 | <p>Dylai ysgolion gynghori plant na ddylid hel na bwyta unrhyw blanhigion, blodau, aeron na chnau.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |

|                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|-------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Ffotograffiaeth                                 | Mae'n iawn i ymwelwyr dynnu lluniau at ddefnydd personol trwy gydol yr ymweliad.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| Ymddygiad Ymwelwyr                              | <p>Ni ddylai ymwelwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• fynd i fannau sydd ar gau i'r cyhoedd</li> <li>• ymddwyn yn afreolus</li> <li>• cyffwrdd neu ddringo ar unrhyw beiriannau.</li> </ul> <p>Mae'r Amgueddfa'n cadw'r hawl i ofyn i grwpiau neu ymwelwyr sy'n ymddwyn yn sarhaus neu'n afresymol adael y safle.</p> <p>Rhaid i unrhyw grwpiau o blant o dan 16 oed fod o dan oruchwyliaeth drwy'r adeg. Oedolion neu arweinwyr y grŵp sy'n gyfrifol amdanynt drwy gydol yr ymweliad.</p> <p>Gallwn wrthod mynediad i grwpiau sydd heb oruchwylwyr.</p> |
| Archwiliadau Safle o'r Cyfleusterau / Ardaloedd | Mae staff yn archwilio'r cyfleusterau'n gyson ac yn cofnodi eu canfyddiadau.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| Adnabod Staff y Safle                           | <p>Bydd y canlynol i gyd yn gallu eich helpu neu eich cyfeirio at y lle priodol.</p> <p><u>Amgueddfa</u></p> <p>Mae holl staff yr Amgueddfa'n gwisgo bathodynau adnabod. Croeso i chi fynd atyn nhw os oes rhywbeth yn eich poeni. Mae staff gwirfoddol yr Amgueddfa yn gwisgo bathodynau adnabod.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                |
| Dillad addas                                    | Bydd rhan o'ch ymweliad y tu allan. Dewch â dillad sy'n addas ar gyfer pob math o dywydd.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| Lle ar gyfer Cotiau a Bagiau                    | Gall grwpiau ddefnyddio'r ystafell gotiau wrth y brif ddesg wrth ymweld ag oriel yr Amgueddfa. Mae lle hefyd ar gyfer cotiau a bagiau yng Nghanolfan Capricorn.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| Ysmygu                                          | Ni chaniateir ysmygu yn unrhyw un o'r adeiladau neu'r gofodau awyr agored.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| Traffig                                         | <p>Mae maes parcio bysiau wrth ymyl yr Amffitheatr.</p> <p>Mae rhai o ffyrdd a phalmentydd Caerllion yn gul a gall traffig fod yn drwm ar brydiau, felly dylid bod yn ofalus wrth symud rhwng y safleoedd.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| Diogelwch yn yr Haul / Tywydd                   | <p>Byddwch yn treulio'r rhan fwyaf o'r dydd tu mewn. Os yw'r tywydd yn wael yn ystod ymweliad â'r Amffitheatr a'r Barics awyr agored, gellir defnyddio ystafell ddsbarth yn lle (os oes un ar gael).</p> <p>Ychydig o gysgod sydd yn y safleoedd awyr agored pan fo'r haul yn tywynnu.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                            |

|                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|-------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cyfleusterau Lles | <p><u>Toiledau</u></p> <p>Mae toiled â mynediad i bobl anabl gyda chyfleusterau newid cewyn yn oriel yr Amgueddfa.</p> <p>Mae toiledau i ddyinion a merched yng Nghanolfan Capricorn sydd yn addas i blant, yn ogystal â thoiled â mynediad i bobl anabl.</p> <p>Mae dau doiled ciwbicl unigol yn y pafiliwn ger yr Amffitheatr.</p> <p><u>Ystafell Ginio</u></p> <p>Bydd amser cinio wedi'i nodi ar eich amserlen. Mae ystafelloedd addas ar gael i fwyta cinio. <b>Ewch â'ch holl sbwriel adref gyda chi.</b> Os yw'r tywydd yn braf cewch fwyta'ch cinio yn yr ardd. Sylwer: ni chaniateir bwyta nag yfed yn oriel yr Amgueddfa.</p> |
|-------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

**Adolygiad diweddaraf 11/06/2021**

## **Gwybodaeth Ddefnyddiol**

### **Canslo**

Os byddwch yn canslo ar ôl 10am ar y diwrnod cyn y sesiwn, neu os ydych yn hwyr ar y diwrnod ac yn methu'r sesiwn, rhaid i chi dalu pris llawn y sesiwn. Os byddwch yn canslo neu'n newid archeb, efallai y bydd rhaid i chi dalu ffi weinyddol o £25. Os bydd amgylchiadau'n newid, cysylltwch â'r Tîm Addysg ar unwaith fel y gallwn gynnig eich lle i ysgol arall. **Ffoniwch (029) 2057 3546** a gadewch neges ar y peiriant ateb os yw'r llinell yn brysur.

### **Pris sesiynau wedi'u hwyluso**

Byddwn yn gyrru anfoneb i'ch ysgol ar ôl diwrnod yr ymweliad. Os byddwch yn canslo ar ôl 10am y diwrnod cyn y sesiwn neu os byddwch yn hwyr ac yn colli'ch sesiwn, rhaid talu'r anfoneb. Nid yw'r prisiau'n cynnwys TAW ond mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gallu ei hawlio'n ôl gan eu Hawdurdod Lleol.

Mae grwpiau Anghenion Addysgol Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yng Nghymru yn gymwys i gael sesiynau am ddim.

### **Siopa**

Bydd gan ysgolion gyfle i rag-archebu bagiau o anrhegion o'r siop, sy'n gallu cael eu casglu ar ddiwedd eich ymweliad.

### **Polisi Amddiffyn Plant**

Mae ein [Polisi Amddiffyn Plant](#) ar ein gwefan, yn yr adran Amdanom ni/Polisi a Strategaeth.

Darllenwch y darnau isod cyn eich ymweliad:

### **[Yswiriant Atebolrwydd](#)**